## PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 23 Tachwedd 2016 am 9.30 am.

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr Jason McLellan (Cadeirydd), Stuart Davies, Martyn Holland, Alice Jones a Win Mullen-James, ynghyd â’r Aelod Lleyg Paul Whitham

Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol Gofal Cymdeithasol a Gwasanaethau Plant

Arsylwyr: Y Cynghorwyr Meirick Davies ac Arwel Roberts

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd (GW); Pennaeth Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol (PG); Pennaeth Archwilio Mewnol (IB); Uwch Archwiliwr (NW); Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd (MJ); a Gweinyddwyr y Pwyllgor (KEJ ac SJ)

Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru - Gwilym Bury a Michelle Phoenix

Cynrychiolwyr AGGCC - Vicky Poole (Cyfarwyddwr Rhanbarthol) a Christine Jones (Rheolwr Ardal) yn bresennol ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen: Arolygiad AGGCC o Wasanaethau Gofal Cartref

### 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau

Anthony Veale - Swyddfa Archwilio Cymru

### 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Gwnaed y datganiadau cysylltiad canlynol mewn perthynas ag eitem 5 ar y rhaglen: Arolygiad AGGCC o Wasanaethau Gofal Cartref -

Datganodd y Cynghorydd Alice Jones gysylltiad personol fel Cyn-gadeirydd y Panel Rheoleiddio (Cyngor Gofal Cymru) a Chyn-Asesydd Lleyg AGGCC.

Datganodd y Cynghorydd Jason McLellan gysylltiad personol â’r eitem hon mewn perthynas â thrafodaethau ar Bolisi Llywodraeth Cymru gan ei fod yn gweithio i Lywodraeth Cymru.

### 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw fater brys.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 28 Medi.

**Cywirdeb -**

**Tudalen 8: Eitem 6 Proses Cyllideb 2017/18 -** Cyfeiriodd y Cadeirydd at y trafodaethau ynghylch proses y gyllideb a gofynnodd i'r cofnod gael ei newid i gynnwys ei farn ef, fel a fynegwyd yn y cyfarfod hwnnw, y dylai gweithdy cyllideb fod wedi cael ei gynnal rhwng mis Gorffennaf a mis Tachwedd i aelodau etholedig er mwyn archwilio'r arbedion effeithlonrwydd parhaus.

**Materion yn Codi -**

**Tudalen 11: Eitem 8 Adroddiad Estyn ar Gonsortiwm Rhanbarthol GwE** - Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai adroddiad y Pennaeth Gwasanaeth Addysg i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeirydd Archwilio ar y cynnydd ynglŷn â'r argymhellion Estyn yn debygol o gael ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ym mis Ionawr.

**Tudalen 12: Eitem 9 Adroddiad Diweddariad Diogelu Corfforaethol** - O ran penderfyniad y pwyllgor i dderbyn adroddiad cynnydd pellach, hysbyswyd yr aelodau fod y Panel Diogelu Corfforaethol yn gweithio ar y cynnwys ar gyfer y modiwl hyfforddiant a fyddai'n debygol o gael ei lansio ddiwedd mis Mawrth. O ganlyniad, gallai adroddiad cynnydd yn ôl i'r pwyllgor gael ei drefnu yn y rhaglen waith ar gyfer mis Ebrill. Cyfeiriodd y Cadeirydd hefyd at yr adroddiad cynhwysfawr a gafwyd mewn cyfarfod Briffio'r Cyngor yn ddiweddar ynglŷn ag achos Rotherham oedd yn amlygu pwysigrwydd ymgorffori egwyddorion diogelu corfforaethol ar draws yr awdurdod.

**Tudalen 13: Eitem 10 Ysgol Mair Y Rhyl - Diweddariad Adroddiad Archwilio Mewnol** - Cadarnhaodd y Cadeirydd ei fod wedi anfon llythyr o werthfawrogiad at y Prifathro fel y cytunwyd.

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod, cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2016 fel cofnod cywir.*

## 5 AROLYGIAD AGGCC O WASANAETHAU GOFAL CARTREF

Croesawodd y Cadeirydd Vicky Poole (Cyfarwyddwr Rhanbarthol) a Christine Jones (Rheolwr Ardal) o AGGCC a wahoddwyd i fynychu'r cyfarfod ar gyfer yr eitem hon.

Cyflwynodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol yr adroddiad (copi wedi'i ddosbarthu'n flaenorol) yn ymwneud ag arolygiad o'r gwasanaethau gofal cartref ar gyfer pobl hŷn a gynhaliwyd yn Sir Ddinbych fel rhan o arolygiad cenedlaethol. Roedd yr adroddiad yn cynnwys ymatebion i'r materion a nodwyd yn adroddiad arolygu AGGCC ynghyd â chamau i ymdrin â phryderon penodol.

Roedd yr adroddiad cenedlaethol llawn ynghlwm wrth yr adroddiad (Atodiad 1) ynghyd â'r adroddiad manwl o arolygiad Sir Ddinbych (Atodiad 2).

Wrth gyflwyno'r adroddiad cynhwysfawr tynnodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol sylw at y canlynol -

- cyd-destun arolygiad Sir Ddinbych fel rhan o adolygiad cenedlaethol mwy o ddarpariaeth gofal cartref ym mis Tachwedd 2015 yn cynnwys chwe awdurdod lleol
- pwrpas yr arolygiadau i asesu llwyddiant awdurdodau lleol wrth gyflawni canlyniadau i bobl trwy arfarniad o effeithiolrwydd ac ansawdd y gofal cartref y maent yn ei gomisiynu
- pryderon a godwyd gan swyddogion ynghylch y diffyg tystiolaeth i gefnogi’r canfyddiadau yn adroddiad drafft Sir Ddinbych gyda’r adroddiad terfynol yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGGCC gydag ychydig o newidiadau a heb sylwadau’r swyddogion
- y materion yr oedd swyddogion yn credu oedd yn anghywir fel y manylwyd ym mharagraff 4.3.3 yr adroddiad [rhif 1 - 7] yn tynnu sylw at bob mater unigol ynghyd ag ymateb Sir Ddinbych i hynny
- canfyddiadau yn adroddiad arolygu Sir Ddinbych wedi cael eu bwydo i mewn i'r adolygiad a'r casgliadau cenedlaethol fel y'u cynhwysir yn y Crynodeb Gweithredol
- risgiau i'r farchnad gofal cartref a'r camau arfaethedig i ymdrin â hwy, pob un ond un wedi ei drafod gyda'r arolygydd.

Ymhelaethodd y Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Cymunedol ar y materion yr oedd swyddogion yn credu oedd yn anghywir a oedd wedi'i nodi ym mharagraff 4.3.3 o'r adroddiad rhif 1 - 7 -

**1. Nid oedd gan Sir Ddinbych Ddatganiad Sefyllfa’r Farchnad manwl cadarn**

Roedd Sir Ddinbych, ynghyd â holl awdurdodau lleol eraill Gogledd Cymru, yn gweithio gyda’r Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar hyn o bryd er mwyn gwella eu Datganiad Sefyllfa’r Farchnad. Cyngor arbenigol oedd cadw Datganiad Sefyllfa’r Farchnad yn fyr ac i'r pwynt gyda gwybodaeth fanwl yn cael ei chadw ar wahân.

**2. Nid oedd dull Sir Ddinbych o dendro-mini ar gyfer pecynnau unigol o ofal yn arwain at ddeilliannau cynaliadwy. Gofynnwyd i ddarparwyr gyflwyno cyfradd ‘cyfwerth â neu is na' ein cyfraddau dangosol.**

Ni chafwyd tystiolaeth i gefnogi’r datganiad hwn gan yr arolygydd. Roedd y datganiad ynglŷn â chyflwyniad cyfraddau yn ffeithiol anghywir – gofynnwyd i ddarparwyr ddweud wrth y Cyngor os ydynt yn gallu bodloni gofynion y pecyn a faint fyddai hynny’n ei gostio. Yn unol â gwerth gorau, os oes mwy nag un darparwr sy’n gallu bodloni’r gofynion, derbynnir y cais isaf. Roedd yr adroddiad yn awgrymu mai’r gost oedd y prif ffocws nid dyna oedd yr achos.

**3. Roedd Sir Ddinbych yn talu tâl cadw tra bydd unigolyn yn yr ysbyty ond dim ond am bythefnos, sy’n golygu bod posibilrwydd y bydd darparwr newydd yn gyfrifol am ofalu am yr unigolyn pan gaiff ei ryddhau o’r ysbyty.**

Roedd Sir Ddinbych yn un o ddim ond ychydig o Awdurdodau Lleol sy'n talu tâl cadw am unrhyw hyd tra bydd unigolyn yn yr ysbyty, ac er ei bod yn ymddangos bod yr arfer hwn yn cael ei feirniadu yn yr adroddiad, roedd yr awdurdod o'r farn ei fod yn arfer da. Er gwaethaf y broblem bod gwneud taliadau cadw yn gallu bod yn anghynaladwy, bydd anghenion unigolyn yn newid yn ystod arhosiad hirach yn yr ysbyty a bydd cynllun gofal a chefnogaeth newydd yn angenrheidiol.

4. **Roedd Sir Ddinbych yn comisiynu galwadau 15 munud o hyd, a'r farn yw nad yw hyn yn dderbyniol**

Mae'r Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu newydd yn nodi ym mha amgylchiadau y gellir comisiynu galwadau 15 munud. Roedd swyddogion wedi adolygu pob cynllun gofal a chefnogaeth sy'n cynnwys galwadau 15 munud a'r casgliad oedd bod pob un yn cydymffurfio a'r Ddeddf. Yn ddiddorol, roedd yr adroddiad cenedlaethol yn datgan nad pa mor hir yw galwad sy'n bwysig ond yn hytrach y canlyniad.

5. **Dylai'r Awdurdod Lleol adolygu'r trefniadau sefydliadol ar gyfer comisiynu a chontractio oherwydd nad ydynt yn glir i bawb ac mae hynny'n cael cryn effaith ar effeithiolrwydd y cylch comisiynu, yn arbennig o ran monitro contractau.**

Ni chafwyd tystiolaeth i gefnogi'r datganiad hwn gan yr arolygydd. Nid oedd y trefniadau'n wahanol iawn i drefniadau llawer o awdurdodau lleol eraill ar draws Cymru ac roeddent wedi'u derbyn â'u mabwysiadu ar gyfer comisiynu a chontractio, oedd yn 2 wahanol ran o'r cylch comisiynu. Amlygwyd trefniadau comisiynu – er yn wahanol ar draws y 6 awdurdod lleol a arolygwyd - fel rhywbeth sy'n peri pryder ym mhump o'r adroddiadau unigol.

6. **Nid yw'r awdurdod lleol yn cwrdd â darparwyr yn rheolaidd ac roedd straen ar y berthynas**

Ni chafwyd tystiolaeth i gefnogi'r datganiad hwn gan yr arolygydd. Roedd y Pennaeth Gwasanaeth yn cadeirio cyfarfodydd chwarterol gyda'r darparwyr, sy'n cynnwys Fforwm Gofal Cymru (Rheolwr y Gwasanaeth oedd yn eu cadeirio gynt) ac mae'r ffaith y cynhelir y cyfarfodydd hyn yn dangos bod y datganiad hwn yn ffeithiol anghywir. Yn anffodus, nid oedd cynrychiolydd o Fforwm Gofal Cymru wedi gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod oherwydd ymrwymiad blaenorol ond roedd yn honni bod perthynas dda gyda darparwyr.

7. **Nid oedd adolygiadau bob amser yn cael eu cynnal fel sy'n angenrheidiol**

Cwblhawyd dros 90% o adolygiadau ar yr adeg iawn y llynedd, sy'n golygu bod Sir Ddinbych yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru.

Amlygodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol risgiau i'r farchnad gofal cartref ac ymhelaethodd ar y camau gweithredu arfaethedig a fanylir ym mharagraff 4.5 yr adroddiad er mwyn mynd i'r afael â'r materion hynny -

- Cymorth gyda hysbysebu a recriwtio staff - recriwtio a chadw staff yn fater cenedlaethol a oedd yn fwy amlwg mewn ardaloedd gwledig ac arweiniodd at gostau uwch i dalu darparwyr. Er mwyn atgyfnerthu'r farchnad gofal cartref roedd yr awdurdod yn cynorthwyo darparwyr gyda hysbysebion recriwtioGweithio gyda chydweithwyr a darparwyr rhanbarthol drwy'r Bwrdd Comisiynu i ddatblygu model newydd ar gyfer cyflwyno yn seiliedig ar gontractau sy'n seiliedig ar ardal - a chreu rhestr darparwyr a ffafrir ar draws Gogledd Cymru. Byddai'r ffocws ar ddewis y defnyddiwr a chanlyniadau yn hytrach nag 'amser a thasgau' yn unol â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cynnwys sgyrsiau gyda defnyddiwr gwasanaeth a'r darparwr i gyflawni'r canlyniadau hynny. Cyfeiriwyd at nifer o astudiaethau achos yn amlygu pwysigrwydd gwrando ar ddefnyddwyr gwasanaeth er mwyn sicrhau bod gofal personol ac anghenion lles yn cael eu bodloni.Cefnogaeth barhaus gyda hyfforddi staff - roedd angen cefnogi asiantaethau a hyfforddi staff ac roedd rhaglen barhaus yn hynny o beth
- Datblygu tîm mewnol tymor byr er mwyn rhoi amser i ddarparwyr recriwtio ar gyfer cynlluniau gofal a chymorth newydd - byddai hyn yn caniatáu i unigolion adael yr ysbyty yn ddi-oed tra bod staff yn cael eu recriwtio
- Cynnydd ffi gyfartalog o 5%, i gydnabod effaith y Cyflog Byw Cenedlaethol a phwysau arall wedi ei gytuno ar gyfer 2016/17 ac roedd cynlluniau yn cael eu datblygu gyda darparwyr i gynhyrchu pris teg am gynnydd parhaus mewn ffioedd
- Datblygu Datganiad Sefyllfa’r Farchnad cyfredol yn seiliedig ar waith sy'n cael ei wneud ar yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth rhanbarthol – roedd drafft terfynol wedi’i lunio gyda’r manylion ar gael ar wahân.
- Byddai ailasesiad o'r holl unigolion sy'n derbyn gofal cartref yn dechrau yn y mis nesaf i sicrhau bod ffocws ar ganlyniadau a bod y meini prawf cymhwyster newydd a osodwyd yn y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn cael eu cymhwyso'n gyson ac unigolion yn cael eu cefnogi i ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain lle bo hynny'n bosibl, gan ryddhau capasiti yn y farchnad.

Roedd y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol dros Ofal Cymdeithasol, Gwasanaethau Oedolion a Phlant yn talu teyrnged i waith AGGCC am y gwelliannau wrth ddarparu gofal cartref ar draws Cymru a sicrhau bod darparwyr yn broffesiynol, yn effeithiol ac yn diwallu anghenion trigolion. Yn gyffredinol roedd Sir Ddinbych yn darparu gofal da ac yn ymyrryd yn gyflym os oedd angen. Lle teimlwyd y gellir gwneud newidiadau er gwell roeddent yn awyddus i wneud hynny.

Ar wahoddiad y Cadeirydd rhoddodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol AGGCC rywfaint o gyd-destun yr adolygiad, gan egluro ac ymateb i faterion a godwyd fel a ganlyn -

- eglurodd y cefndir i'r adolygiad a gomisiynwyd gan y cyn Weinidog Iechyd Mark Drakeford fel rhan o gyfres o waith
- ymhelaethodd ar y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth gynnal yr adolygiad a oedd yn cynnwys caffael gwybodaeth o ystod eang o ffynonellau er mwyn triongli’r wybodaeth honno a ffurfio barn
- Roedd cynrychiolwyr AGGCC wedi cyfarfod â swyddogion yn y cyfnod adroddiad drafft ac roedd rhai mân newidiadau wedi'u gwneud. O ran cywirdeb ffeithiol ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i ddweud bod yr haeriadau yn

anghywirroedd yr adroddiad terfynol wedi ei anfon yn electronig at y cyngor ond oherwydd diffyg TG nid oedd wedi dod i law ac ni sylweddolwyd ar y nam

- amlygodd fod yr adolygiad wedi ei gynnal deuddeng mis yn gynt ac yn darparu ciplun mewn amser - roedd yn braf clywed am y newidiadau sy'n cael eu gwneud wrth ymateb i ofynion Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant
- o ran y canfyddiadau cyffredinol roedd arfer Sir Ddinbych ynghyd ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru wedi cael eu cymharu a'u cyferbynnu.

Ymatebodd y Cyfarwyddwr Rhanbarthol i'r materion hynny yr oedd swyddogion yn credu oedd yn anghywir fel a ganlyn -

**1. Nid oedd gan Sir Ddinbych Ddatganiad Sefyllfa'r Farchnad manwl cadarn**

Nodwyd y gwaith sy'n cael ei wneud er mwyn gwella Datganiad Sefyllfa'r Farchnad

**2. Nid oedd dull Sir Ddinbych o dendro-mini ar gyfer pecynnau unigol o ofal yn arwain at ddeilliannau cynaliadwy. Gofynnwyd i ddarparwyr gyflwyno cyfradd 'cyfwerth â neu is na' ein cyfraddau dangosol.**

Roedd hyn wedi bod yn fater pwysig o ystyriaeth oherwydd ar y pryd roedd dull Sir Ddinbych wedi bod yn wahanol iawn i'r hyn ledled Cymru a modelau eraill o arfer da. Dywedodd darparwyr nad oeddent yn gyfforddus gyda dull arwerthu lle'r oedd yn rhaid iddynt gyflwyno cynnig isel i gaffael gwaith. Roedd un darparwr yn dewis peidio â gwneud busnes gyda Sir Ddinbych oherwydd y dull hwnnw. Teimlai darparwyr na allent ddarparu ansawdd gwasanaeth os oedd costau yn cael eu gyrru i lawr. Dyna oedd yr arfer deuddeng mis yn ôl ac roedd Sir Ddinbych yn rhoi mesurau ar waith i newid y dull hwnnw o blaid model darparu newydd.

**3. Roedd Sir Ddinbych yn talu tâl cadw tra bydd unigolyn yn yr ysbyty ond dim ond am bythefnos, sy'n golygu bod posibilrwydd y bydd darparwr newydd yn gyfrifol am ofalu am yr unigolyn pan gaiff ei ryddhau o'r ysbyty.**

Roedd y datganiad o ran Sir Ddinbych yn talu tâl cadw yn sefyllfa o ffaith ac nid yn feirniadaeth. Teimlai darparwyr bod gofal cartref da yn ymwneud â pharhad gofal a'r berthynas rhwng y staff hynny a defnyddwyr gwasanaethau.

**4. Roedd Sir Ddinbych yn comisiynu galwadau 15 munud o hyd, a'r farn yw nad yw hyn yn dderbyniol**

Yn ystod yr adolygiad, canfuwyd bod Sir Ddinbych yn comisiynu mwy o alwadau 15 munud nag awdurdodau eraill a gofynnwyd i'r cyngor sicrhau ei hun eu bod wedi eu cyfiawnhau ac yn briodol. Er bod y cyngor yn ystyried y galwadau hynny yn briodol roedd darparwyr yn dweud eu bod yn ei chael hi'n anodd i ddarparu gofal o fewn y terfyn amser hwnnw. Roedd y farn honno wedi cael ei hadlewyrchu yn yr adroddiad.

**5. Dylai'r Awdurdod Lleol adolygu'r trefniadau sefydliadol ar gyfer comisiynu a chontractio oherwydd nad ydynt yn glir i bawb ac mae hynny'n cael cryn effaith ar effeithiolrwydd y cylch comisiynu, yn arbennig o ran monitro contractau.**

Derbyniwyd nad lle AGGCC oedd dweud wrth y cyngor sut i weithredu ei fusnes. Roedd yr adolygiad wedi ei gynnal ar adeg o newid o fewn y cyngor gydag ad-drefnu timau nad oedd wedi bod yn glir i bobl ar y pwynt hwnnw.

**6. Nid yw'r awdurdod lleol yn cwrdd â darparwyr yn rheolaidd ac roedd straen ar y berthynas**

Er mai bwriad y cyngor oedd i gwrdd â darparwyr yn rheolaidd roedd rhai cyfarfodydd wedi cael eu canslo cyn yr adolygiad ac roedd cyfarfodydd bellach yn fwy rheolaidd gyda'r Pennaeth Gwasanaeth yn cadeirio'r cyfarfodydd hynny. Ar y pryd roedd rhai darparwyr wedi dweud nad oeddent wedi cael y cyfle i gwrdd â'r awdurdod a byddent yn croesawu hynny. Derbyniwyd na fyddai rhai darparwyr yn mynegi'r farn honno.

**7. Nid oedd adolygiadau bob amser yn cael eu cynnal fel sy'n angenrheidiol**

Roedd perfformiad yn dda ac mae'r sylw a wnaed wedi bod yn fwy am yr amser a gymerir i ymateb i newidiadau mewn amgylchiadau. Eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol bod yr holl ddarparwyr wedi cael gwybod bod ganddynt y gallu i newid pecyn gofal unigolyn os byddai mater yn codi heb ofyn i'r awdurdod yn gyntaf.

I gloi esboniodd y CRh y byddai adroddiad arolygu cenedlaethol AGGCC yn helpu i lywio'r strategaeth gofal pum mlynedd ar gyfer Cymru ac roedd yn cynnwys symud oddi wrth 'amser a thasg' a chanolbwyntio ar ganlyniadau gwell i bobl.

Eglurodd y Cadeirydd fod yr adroddiad arolygu AGGCC wedi cael ei gyflwyno i'r pwyllgor yn unol â'r broses adrodd arferol ar gyfer adroddiadau rheoleiddio allanol ac roedd cynrychiolwyr o AGGCC wedi cael gwahoddiad fel rhan o'r broses honno yn sgil y gwahaniaethau barn a amlygwyd. Yn gyffredinol roedd aelodau yn teimlo y bu cyfnewid safbwyntiau gonest ac agored gan weithwyr proffesiynol ar y ddwy ochr a oedd wedi helpu i egluro materion a godwyd a'r camau sydd eu hangen i fynd i'r afael â phryderon penodol. Trafodwyd y rhesymeg y tu ôl i Lywodraeth Cymru yn comisiynu'r adolygiad a'r canlyniadau a ddisgwylir ac yn gyffredinol ystyriodd y pwyllgor yr adolygiad yn gam cadarnhaol wrth fynd i'r afael â'r problemau a wynebir o fewn y farchnad gofal cartref a gwella'r ddarpariaeth ar draws Cymru. Roedd yr aelodau'n awyddus i ddysgu sut y byddai'r adolygiad yn cael ei ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru er mwyn sicrhau gwelliant ac a fyddai cymorth ariannol yn dod i law er mwyn helpu i gyflawni gwell canlyniadau, yn enwedig yng ngoleuni'r toriadau yn y gyllideb sy'n wynebu awdurdodau lleol. Eglurodd y CRh bod AGGCC yn cynnal arolygiadau i wella darpariaeth gofal ac roedd yn gweithredu'n annibynnol o Lywodraeth Cymru ac nid oedd ganddynt unrhyw ddylanwad dros eu blaenoriaethau na'u treuliau. Fodd bynnag, cytunodd i gyflwyno sylwadau'r aelodau i'r Bwrdd Comisiynu Cenedlaethol. Roedd yr adroddiad cenedlaethol yn cynnwys argymhellion i Lywodraeth Cymru ac o 1 Ebrill 2017 byddai Cyngor Gofal Cymru yn cael ei ddiwygio fel Gofal Cymdeithasol Cymru a byddai'r mater hwn yn flaenoriaeth o ran cefnogi darparwyr a chynghorau a sicrhau arfer gorau.

Trafododd yr Aelodau ganfyddiadau'r adroddiad a'r ymatebion i'r gwahanol faterion a godwyd gyda Phennaeth y Gwasanaethau Cymorth Cymunedol a chynrychiolwyr AGGCC, ynghyd â'r cyd-destun cenedlaethol ehangach a'r risgiau yn y farchnad gofal cartref. Prif bwyntiau trafod yn cynnwys -

- sicrhau bod pobl yn gallu aros yn eu cartrefi eu hunain a byw mor annibynnol ag y bo modd yn elfen allweddol ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth
- pryderon a godwyd ynghylch diffyg difrifol o gapasiti yn y farchnad gofal cartref a oedd yn hynod o fregus gyda gormod o bwyslais ar gost
- amlygwyd unigrwydd ac ynysu cymdeithasol yn fater o bwys i bobl sy'n cael gofal yn y cartref, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig a'r angen i sicrhau bod ymweliadau cartref yn parhau lle y bo'n briodol, ac nid yn cael eu disodli gan alwadau ffôn
- croesawyd symud oddi wrth 'amser a thasg' i symud at ymagwedd sy'n canolbwyntio mwy ar yr unigolyn sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a lles ac ymhelaethodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol ar waith a wneir er mwyn efelychu arferion da mewn ardaloedd eraill drwy ddatblygu model pris sefydlog i gynnwys cymysgedd o gwmni lleol mawr a bach er mwyn darparu'r gwasanaethau gorau i ddefnyddwyr gwasanaeth
- byddai amodau ar gyfer darparwyr yn y model newydd yn cynnwys cofrestru gyda CSSIW, swyddfa leol yng Nghymru a bodloni safonau Iaith Gymraeg
- eglurwyd nad oedd Asesiad Effaith Lles wedi bod yn angenrheidiol yn yr achos hwn oherwydd bod yr adroddiad wedi ei seilio ar ganfyddiadau'r adolygiad ac nid oedd yn arwain at unrhyw newid yn y polisi - byddai Asesiad Effaith Lles yn cael ei gynnal wrth ddatblygu'r cynllun comisiynu
- nodwyd bod y ddau Adroddiad Gwella Blynyddol diwethaf a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru wedi cynnwys adroddiad beirniadol gan AGGCC ar ofal cartref a byddai'r adroddiad diweddaraf yn ymddangos yn yr Adroddiad Gwella Blynyddol nesaf
- roedd comisiynu a thendro gwasanaethau wedi'i amlygu fel mater hollbwysig a holodd y Cadeirydd a allai AGGCC gymryd sicrwydd gan y camau gweithredu sy'n cael eu cymryd yn y cyswllt hwnnw – roedd y CRh yn cymharu gwelliant gyda thaith a dywedodd y byddai AGGCC yn parhau i fonitro a gwerthuso cynnydd
- o ran y berthynas rhwng y cyngor a darparwyr cadarnhaodd y CRh nad oedd y ffordd y caiff gofal ei gomisiynu wedi arwain at bartneriaeth gyfartal a dylai'r newid arfaethedig yn y trefniadau helpu yn hynny o beth a gwella'r perthnasau hynny - byddai rhai darparwyr yn fwy parod i siarad gydag AGGCC fel corff niwtral yn hytrach na'r cyngor oedd yn comisiynu eu gwasanaethau
- eglurodd Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth Cymunedol bod comisiynu gwasanaethau gofal preswyl yn fater ar wahân sy'n cynnwys contract cyffredinol gyda'r cartref gofal - roedd gan ddarparwyr gofal cartref gontract gyda'r cyngor a gellid cynnig darn o waith.

Wrth ystyried y ffordd ymlaen roedd y pwyllgor yn awyddus i fonitro cynnydd o ran y camau gweithredu a restrir yn 4.5 o'r adroddiad er mwyn mynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder - yn enwedig comisiynu a thendro gwasanaethau gofal cartref a gafodd ei ystyried yn rhan hanfodol o'r broses. O ganlyniad -

***PENDERFYNWYD** y dylid derbyn yr adroddiad a'i nodi ac adroddiad cynnydd ar y camau gweithredu a restrir ym mharagraff 4.5 o'r adroddiad i fynd i'r afael â meysydd sy'n peri pryder i gael ei gyflwyno i'r pwyllgor ym mis Ebrill 2017.*

**6 ADRODDIAD BLYNYDDOL DEDDF RHEOLEIDDIO PWERAU YMCHWILIO 2000**

Cyflwynwyd adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) ar ddefnydd y Cyngor o'i bwerau gwyliadwriaeth dan RIPA (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000) fel sy'n ofynnol o dan God Ymarfer y Swyddfa Gartref.

Darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Gwasanaethau Democrataidd drosolwg o RIPA ac eglurodd sut y gallai pwerau o dan y Ddeddf honno gael eu defnyddio gan y cyngor, ynghyd â'r prosesau ar waith. Ers yr adroddiad diwethaf, dim ond un weithred cuddwylio a gynhaliwyd a oedd yn cynnwys gwerthu nwyddau â chyfyngiad oed, megis tybaco neu alcohol (prawf prynu ieuenctid). Roedd sesiynau hyfforddiant mewnol rheolaidd yn cael eu darparu i swyddogion ddefnyddio'r pwerau hynny â'r sesiwn nesaf a gynlluniwyd ar gyfer 30 Mawrth 2017. Eglurwyd rôl Gweithgor RIPA y Cyngor hefyd a pharhaodd y Grŵp i gwrdd fel bo angen.

***PENDERFYNWYD** bod yr adroddiad RIPA Blynyddol (Deddf Rheoleiddio Pwerau Ymchwilio 2000) yn cael ei dderbyn a'i nodi.*

Ar y pwynt hwn (11.05 am) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

**7 ASESIAD CYNGOR SIR DDINBYCH O BERFFORMIAD 2015-16 - TYSTYSGRIF CYDYMFFURFIO SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU**

Cyflwynwyd Tystysgrif Cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Adroddiad Perfformiad Blynyddol Sir Ddinbych 2015/16 (dosbarthwyd yn flaenorol) er gwybodaeth.

Eglurodd Mr Gwilym Bury, Swyddfa Archwilio Cymru gefndir cyhoeddi tystysgrif blynyddol fel sy'n ofynnol o dan y Mesur Llywodraeth Leol 2009. Roedd Sir Ddinbych bob amser wedi cydymffurfio â'r Mesur a lluniodd adroddiad perfformiad blynyddol dwyieithog a gyhoeddwyd ar ei wefan o fewn yr amserlen.

***PENDERFYNWYD** bod y Dystysgrif Cydymffurfiaeth a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei derbyn a'i nodi.*

**8 DIWEDDARIAD ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar y cynnydd Archwilio Mewnol o ran cyflwyno gwasanaeth, darpariaeth sicrwydd, adolygiadau a gwblhawyd, perfformiad ac effeithiolrwydd wrth yrru gwelliant.

Roedd adroddiadau cynnydd Archwilio Mewnol wedi cael eu rhannu yn flaenorol gydag aelodau y tu allan i'r rhaglen ffurfiol gyda dim ond archwiliadau yn cael graddfa sicrwydd 'isel' neu 'dim' yn cael ei drafod yn y pwyllgor. I ddarparu darlun

mwy cytbwys a chaniatáu i'r pwyllgor fonitro cynnydd a pherfformiad Archwilio Mewnol yn ffurfiol roedd diweddariad cynnydd arddull newydd wedi'i ddylunio i gael ei gyflwyno i bob cyfarfod pwyllgor.

Roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi tywys aelodau drwy'r adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf hyd at ddiwedd mis Hydref 2016 ar -

- adroddiadau Archwilio Mewnol a gyhoeddwyd yn ddiweddar (Taliadau Darparwyr Allanol - Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol; Dyraniadau Tai a Thai Gwag; Cludiant Cyhoeddus)
- Gwaith dilynol ar adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol (AD Strategol; Rheoli a Gweinyddu Gwasanaethau Cyfreithiol)
- Cynnydd o ran cyflawni'r Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2016/17
- Safonau perfformiad Archwilio Mewnol

Cafodd y materion canlynol eu trafod yn ystod y drafodaeth -

- peth trafodaeth yn canolbwyntio ar adroddiadau archwilio a gyhoeddwyd yn ddiweddar o ran 'Taliadau i Ddarparwyr Allanol - Gwasanaethau Cefnogi Cymunedol' a 'Thrafnidiaeth Gyhoeddus, a'r angen i sicrhau bod gwiriadau ariannol rheolaidd yn cael eu cynnal i ardystio bod darparwyr yn gadarn yn ariannol ac nid yn profi anawsterau ariannol a allai arwain at broblemau gyda pharhad y gwasanaeth. Nodwyd bod y mater yn fwy o broblem ar gyfer meysydd gwasanaeth a oedd yn dibynnu'n drwm ar nifer fach o ddarparwyr a'r angen am wiriadau ariannol wedi cael eu cyfeirio atynt yn yr Adolygiad Caffael a Rheolau Gweithdrefn ContractauAmlygwyd pwysigrwydd cynllunio parhad busnes a dywedwyd wrth y pwyllgor fod pob gwasanaeth yn gyfrifol am ddatblygu ei gynllun parhad busnes eu hunain i ddelio â risgiau posibl i'w meysydd gwasanaeth penodol. Hefyd byddai yna gynllun parhad busnes corfforaethol.Trafododd yr aelodau'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol ar gyfer 2016/17 o ystyried y materion gallu sy'n codi o gyfnodau o absenoldeb mamolaeth o fewn y tîm sy'n cwmpasu'r flwyddyn ariannol gyfredol a'r nesaf gan arwain at y trydydd adolygiad o'r Cynllun. Roedd y Cynllun yn mynd rhagddo yn dda ac roedd y Pennaeth Archwilio Mewnol yn hyderus y byddai'n cael ei gwblhau er mwyn iddo roi barn archwilio blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannolmewn perthynas â rheoli cronfeydd ysgol wirfoddol a nodir yn y Cynllun, eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol oherwydd y sgôr sicrwydd isel byddai'n datblygu canllawiau newydd i ysgolion ar sut i reoli arian yn effeithiol i fod yn eu lle erbyn 1 Ebrill 2017. Roedd yn cytuno bod dilyniant ar effeithiolrwydd y canllawiau newydd mewn ysgolion yn cael ei wneud ar ôl gweithredu am oddeutu chwe mis ac adrodd yn ôl ar y canfyddiadau i'r pwyllgor.

Teimlai'r Aelodau bod fformat yr adroddiad yn glir, yn gynhwysfawr ac yn hawdd ei ddarllen, a gofynnodd bod adroddiadau i'r pwyllgor yn y dyfodol hefyd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol (1) Gwaith dilynol ar adroddiadau Archwilio Mewnol blaenorol - i gynnwys tabl yn dangos pob archwiliad gyda chynllun gweithredu nad oedd wedi ei gwblhau yn llawn, a (2) Cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gweithredol Archwilio Mewnol 2016/17 - i gynnwys dyddiadau cwblhau archwiliad.

Anogodd y Cadeirydd yr aelodau i ddarllen yr holl adroddiadau archwilio mewnol oedd wedi eu dosbarthu iddynt i nodi arfer da ac achosion ffiniol a allai gael eu hystyried ymhellach gan y pwyllgor. Ychwanegodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod manylion cyswllt yn cael eu cynnwys ar yr adroddiadau ac anogodd yr aelodau i gysylltu â'r archwilydd perthnasol os oeddent yn dymuno trafod yr adroddiad ymhellach. Croesawodd y Cynghorydd Alice Jones yr adroddiad a thalodd deyrnged i waith y tîm Archwilio Mewnol o ran darparu gwasanaeth gwerthfawr.

***PENDERFYNWYD*** *bod -*

*(a) yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi;*

*(b) cynnwys a fformat yr adroddiad yn cael ei gymeradwyo i'w gyflwyno i gyfarfodydd pwyllgor yn y dyfodol yn amodol ar gynnwys y (1) tabl yn dangos pob archwiliad gyda chynllun gweithredu heb ei gwblhau yn llawn, a (2) cynnwys dyddiadau cwblhau archwilio, ac*

*(c) adroddiad dilynol ar effeithiolrwydd y canllawiau newydd i ysgolion ar sut i reoli arian yn effeithiol yn cael ei wneud ar ôl gweithredu am oddeutu chwe mis ac adrodd yn ôl ar y canfyddiadau i'r pwyllgor.*

## 9 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i'w ystyried a chytunodd yr aelodau ar yr ychwanegiadau canlynol:-

- Diweddariad ar Gamau Gweithredu Gwasanaethau Gofal Cartref - Mis Ebrill
- Adroddiad Cynnydd Diogelu Corfforaethol - Mis Ebrill

***PENDERFYNWYD*** *yn amodol ar yr uchod bod rhaglen gwaith i'r dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei gymeradwyo.*

## Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD*** *dan ddarpariaethau Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau canlynol ar y sail y byddai gwybodaeth eithriedig yn debygol o gael ei datgelu fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.*

## 10 ARCHWILIAD GWASANAETHAU PARCIO - ADRODDIAD DIWEDDARU

Cyflwynodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd adroddiad cyfrinachol (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi diweddariad i'r aelodau ar y camau adferol a gymerwyd ers cyhoeddi'r Archwiliad Gwasanaethau Parcio yn Awst 2016.

Roedd yr Archwiliad Gwasanaethau Parcio wedi nodi wyth o faterion yn deillio o ddiffygion penodol mewn rhai meysydd o'r prosesau presennol. Ymhelaethodd y Rheolwr Traffig, Parcio a Diogelwch Ffyrdd ar y camau adferol oedd yn cael eu cymryd yn erbyn y risgiau a nodwyd, gan egluro materion penodol mewn ymateb i gwestiynau'r aelodau ar hynny.

Yn ystod trafodaeth faith cytunwyd ar y camau gweithredu canlynol -

(1) Monitro taliadau parcio Talu dros y Ffôn gyda ffôn symudol - cytunwyd i wiriad ariannol gael ei wneud ar y darparwr gwasanaeth ac yn rheolaidd wedi hynny yn unol ag arferion da a cheisio cael eglurhad ynghylch darpariaethau cymal am dorri contract
(2) System Trwydded Staff – roedd y mater hwn yn peri pryder penodol i'r pwyllgor a nododd fod adroddiad drafft ynghylch y broses wedi ei gyflwyno i'r Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd. Cytunwyd bod yr aelodau'n cael copi o fersiwn derfynol ar y cyfle cyntaf.

***PENDERFYNWYD*** *y dylid derbyn yr adroddiad a'i nodi a bod adroddiad cynnydd pellach ar gamau gweithredu yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y pwyllgor ym mis Ionawr 2017.*

Daeth y cyfarfod i ben am 12.25pm.